CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 1805 (Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn ychwanegu dyddiad geni'r disgybl sydd wedi'i wahardd at ystod yr wybodaeth ar bob gwaharddiad y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ac athro â gofal uned cyfeirio disgyblion ei darparu i'r awdurdod addysg lleol bob tymor.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 er mwyn cywiro camgymeriad yn fersiwn Cymraeg y Rheoliadau hynny ac er mwyn darparu bod yn rhaid i gorff llywodraethu ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ai peidio ac os yw o'r farn y dylid derbyn disgybl yn ôl rhaid iddo yn ychwanegol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ar unwaith, neu ei dderbyn yn ôl erbyn dyddiad penodol ac ystyried os na fyddai'n ymarferol i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd sy'n mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl. Mae rheoliad 6 yn gwneud diwygiad tebyg i Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 1805 (W.193)

EDUCATION, WALES

The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2004

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make various amendments to the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003 and the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003.

Regulations 3 and 4 add the excluded pupil's date of birth to the range of information on each exclusion that the governing body of a maintained school and the teacher in charge of a pupil referral unit must provide to the local education authority each term.

Regulation 5 amends the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003 to correct an error in the Welsh language version of those Regulations and to provide that the governing body must consider whether or not the pupil should be reinstated and where they consider that the pupil should be reinstated, in addition consider whether the pupil should be reinstated immediately or reinstated by a particular date and whether it would not be practical for the head teacher to comply with a direction requiring the reinstatement of the pupil. Regulation 6 makes a similar amendment to the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003.

Mae rheoliad 7 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 er mwyn darparu bod yn rhaid i'r pennaeth, y corff llywodraethu neu'r panel apêl sefydlu'r ffeithiau yn ôl pwysau tebygolrwydd. Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiad tebyg i Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003.

Regulation 7 amends the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003 to provide that the head teacher, governing body or appeal panel must establish facts on a balance of probabilities. Regulation 8 makes a similar amendment to the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003.

2004 Rhif 1805 (Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004

Wedi'u gwneud	*13 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym	*1 Medi 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(3), (4), a (5) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**a**),ac ar ôl ymgynghori gyda'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**b**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003(**c**);

ystyr "Rheoliadau UCD 2003" ("*the 2003 PRU Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003(**ch**).

(a) 2002 p.32; *gweler* adran 212(1) i gael ystyr "regulations" a "prescribed".

(b) 1992 p.53, diwygiwyd gan baragraff 22 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

(c) O.S. 2003/3227 (Cy.308).

(ch) O.S. 2003/3246 (Cy.321).

2004 No. 1805 (W.193)

EDUCATION, WALES

The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2004

Made	*13th July 2004*
Coming into force	*1st September 2004*

In exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 52(3), (4) and (5) and 210(7) of the Education Act 2002(**a**), and after consultation with the Council on Tribunals in accordance with section 8 of the Tribunals and Inquiries Act 1992(**b**), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2004 and come into force on 1st September 2004.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations -

"the 2003 Regulations" ("*Rheoliadau 2003*") means the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003(**c**);

"the 2003 PRU Regulations" ("*Rheoliadau UCD 2003*") means the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003(**d**).

(a) 2002 c.32; *see* section 212(1) for the meaning of "regulations" and "prescribed".

(b) 1992 c.53, amended by paragraph 22 of Schedule 21 to the Education Act 2002.

(c) S.I. 2003/3227 (W.308).

(d) S.I. 2003/3246 (W.321).

Darparu gwybodaeth

3. Yn rheoliad 5(1)(a) o Reoliadau 2003 mewnosoder y geiriau "dyddiad geni," o flaen y gair "rhyw".

4. Yn rheoliad 6(1)(a) o Reoliadau UCD 2003 mewnosoder y geiriau "dyddiad geni," o flaen y gair "rhyw".

Swyddogaethau'r corff llywodraethu mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u gwahardd

5.-(1) Yn lle rheoliad 6(3) o Reoliadau 2003 rhodder -

"(3) Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ai peidio ac os yw o'r farn y dylid derbyn y disgybl yn ôl, rhaid iddo yn ychwanegol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ar unwaith, neu ei dderbyn yn ôl erbyn dyddiad penodol ac ystyried os na fyddai'n ymarferol i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl."

(2) Yn rheoliad 6(4), mewnosoder ar ôl y geiriau "rhaid iddo" y geiriau ", onid yw o'r farn na fyddai'n ymarferol i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl,".

(3) Yn rheoliad 6(6) -

(i) yn y fersiwn Cymraeg, yn lle'r geiriau "y dylid derbyn disgybl yn ôl" rhodder y geiriau "na ddylid derbyn disgybl yn ôl"; a

(ii) ar ôl y geiriau "na ddylid derbyn disgybl yn ôl" (fel y'u hamnewidir gan baragraff (i) uchod) mewnosoder y geiriau "neu ar ôl penderfynu y dylid derbyn disgybl yn ôl, yn penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd i'r pennaeth yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl".

Swyddogaethau awdurdod addysg lleol mewn perthynas â disgyblion wedi'u gwahardd am gyfnod penodedig

6.-(1) Yn lle rheoliad 7(3) o Reoliadau UCD 2003 rhodder-

"(3) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ai peidio ac os yw o'r farn y dylid derbyn y disgybl yn ôl, rhaid iddo yn ychwanegol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ar unwaith, neu ei dderbyn yn ôl erbyn dyddiad penodol ac ystyried os na fyddai'n ymarferol i'r athro neu athrawes â gofal gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl."

Provision of information

3. In regulation 5(1)(a) of the 2003 Regulations insert the words "date of birth," before the word "gender".

4. In regulation 6(1)(a) of the 2003 PRU Regulations insert the words "date of birth," before the word "gender".

Functions of governing body in relation to excluded pupils

5.-(1) For regulation 6(3) of the 2003 Regulations substitute -

"(3) The governing body must consider whether or not the pupil should be reinstated and where they consider that the pupil should be reinstated, they must in addition consider whether he or she should be reinstated immediately or reinstated by a particular date and whether it would not be practical for the head teacher to comply with a direction requiring the reinstatement of the pupil.".

(2) In regulation 6(4), insert after the words "they must" the words ", unless they consider that it would not be practical for the head teacher to comply with a direction requiring the reinstatement of the pupil,".

(3) In regulation 6(6) -

(i) in the Welsh language version substitute for the words "y dylid derbyn disgybl yn ôl" the words "na ddylid derbyn disgybl yn ôl", and

(ii) insert after the words "should not be reinstated" the words ", or, having decided that the pupil should be reinstated, decide not to give a direction to the head teacher requiring the reinstatement of the pupil".

Functions of local education authority in relation to pupils excluded for a fixed period

6.-(1) For regulation 7(3) of the 2003 PRU Regulations substitute -

"(3) The local education authority must consider whether or not the pupil should be reinstated and they must in addition consider whether he or she should be reinstated immediately or reinstated by a particular date and whether it would not be practical for the teacher in charge to comply with a direction requiring the reinstatement of the pupil.".

(2) Yn rheoliad 7(4), mewnosoder ar ôl y geiriau "rhaid iddo" y geiriau ", onid yw o'r farn na fyddai'n ymarferol i'r athro neu athrawes â gofal gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl,".

(3) Yn rheoliad 7(6), ar ôl y geiriau "na ddylid derbyn disgybl yn ôl" mewnosoder y geiriau ", neu, ar ôl penderfynu y dylid derbyn disgybl yn ôl, yn penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd i'r athro neu athrawes â gofal yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl".

Gwaharddiadau - safon y prawf

7. Ar ôl rheoliad 8 o Reoliadau 2003 mewnosoder -

" Gwaharddiadau - safon y prawf

8A. Os yw'n fater -

(a) i'r pennaeth, wrth arfer pŵer a roddwyd gan adran 52(1) o Ddeddf 2002,

(b) i'r corff llywodraethu, wrth arfer swyddogaethau o dan reoliad 6, neu

(c) i banel apêl a ffurfiwyd yn unol â pharagraff 2 o'r Atodlen, wrth arfer swyddogaethau o dan reoliad 7,

i sefydlu unrhyw ffaith, rhaid penderfynu a gafodd y ffaith ei sefydlu yn ôl pwysau tebygolrwydd.".

8. Ar ôl rheoliad 9 o Reoliadau UCD 2003 mewnosoder -

" Gwaharddiadau - safon y prawf

9A. Os yw'n fater -

(a) i'r athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion, wrth arfer y pŵer a roddwyd gan adran 52(2) o Ddeddf 2002,

(b) i'r awdurdod addysg lleol, wrth arfer swyddogaethau o dan reoliad 7, neu

(c) i banel apêl a ffurfiwyd yn unol â pharagraff 2 o'r Atodlen i Reoliadau 2003 fel y'i haddaswyd, wrth arfer swyddogaethau o dan reoliad 8,

i sefydlu unrhyw ffaith, rhaid penderfynu a gafodd y ffaith ei sefydlu yn ôl pwysau tebygolrwydd.".

(2) In regulation 7(4), insert after the words "they must" the words ", unless they consider that it would not be practical for the teacher in charge to comply with a direction requiring the reinstatement of the pupil,".

(3) In regulation 7(6), insert after the words "should not be reinstated" the words ", or, having decided that the pupil should be reinstated, decide not to give a direction to the teacher in charge requiring the reinstatement of the pupil".

Exclusions - standard of proof

7. After regulation 8 of the 2003 Regulations insert -

"Exclusions - standard of proof

8A. Where it falls to-

(a) the head teacher, in exercise of the power conferred by section 52(1) of the 2002 Act,

(b) the governing body, in exercise of functions under regulation 6, or

(c) an appeal panel constituted in accordance with paragraph 2 of the Schedule, in exercise of functions under regulation 7,

to establish any fact, any question as to whether that fact is established must be decided on a balance of probabilities.".

8. After regulation 9 of the 2003 PRU Regulations insert -

"Exclusions - standard of proof

9A. Where it falls to-

(a) the teacher in charge of a pupil referral unit, in exercise of the power conferred by section 52(2) of the 2002 Act,

(b) the local education authority, in exercise of functions under regulation 7, or

(c) an appeal panel constituted in accordance with paragraph 2 of the Schedule to the 2003 Regulations as modified, in exercise of functions under regulation 8,

to establish any fact, any question as to whether that fact is established must be decided on a balance of probabilities.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

13 Gorffennaf 2004

13th July 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 1805 (Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 1805 (W.193)

EDUCATION, WALES

The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2004

©℗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090985-2

9 780110 909851

£3.00

W123/7/04 ON